O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 202 (Cy.41)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfan y Gerbytffordd tua'r Dwyrain, Rhuallt, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau rhag cael Mynediad) 2011

Gwnaed	*2 Chwefror 2011*
Yn dod i rym	*7 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer – Bangor yr A55 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfan y Gerbytffordd tua'r Dwyrain, Rhuallt, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau rhag cael Mynediad) 2011.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd awdurdodedig" ("*authorised vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu at ddibenion rheoli traffig.

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd rhagddo ar hyd y gefnffordd, ac eithrio cerbydau awdurdodedig, fynd i mewn i'r gilfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Mae'r gwaharddiad sy'n cael ei osod gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel petaent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984 neu drwy unrhyw ddeddfiad arall neu oddi tano, ac ni fydd y gwaharddiad yn rhanddirymu'r cyfyngiad na'r gofyniad hwnnw.

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau Amrywiol, Rhuallt – Travellers' Inn, Clwyd) (Cyfyngu ar Aros) 1993(2) wedi ei ddirymu mewn cysylltiad â'r gilfan a ddisgrifir ym mharagraff 3 o'r Gorchymyn hwnnw ac y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.